



# Vale School Governors' Association

## Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

### and Governor Support Unit

# Cylchlythyr

## Gair gan y Cadeirydd

Mae hwn yn gyfnod o newid i lawer o Gyrrff Llywodraethu gyda llawer o Lywodraethwyr Ysgol newydd. Croeso i Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro - y sefydliad sy'n cynrychioli buddiannau Llywodraethwyr Ysgol ym Mro Morgannwg.

Bydd bod yn Llywodraethwr yn brofiad heriol, ond yn brofiad gwerth chweil yn y pen draw. Mae gennych gyfrifoldebau pwysig, ond rydych hefyd yn cael gweld effaith eich penderfyniadau ar fywydau'r plant yn eich ysgol. Gallwch wneud gwahaniaeth cadarnhaol go iawn.

Gall dod yn Llywodraethwr fod yn frawychus; mae cymaint i'w ddysgu – yr holl acronymau a jargon y mae'r proffesiwn addysgu yn eu cymryd yn ganiataol. Beth yn union yr ydych yn cael ei wneud, y dylech ei wneud ac, yr un mor bwysig, na ddylech ei wneud?

Yn ffodus, mae help wrth law. Mae Uned Gefnogi Llywodraethwyr Bro Morgannwg a Chonsortium Canolbarth y De yn cynnal cyfres gynhwysfawr o sesiynau hyfforddi. Dylech fod wedi derbyn gwybodaeth am y sesiynau

dros e-bost, a byddwch yn derbyn hyn yn rheolaidd bob tymor. Mae digwyddiadau sefydlu ar gyfer Llywodraethwyr newydd, a hyfforddiant ar weithgareddau penodol ar gyfer pob Llywodraethwr.

Cofiwch, mae angen i'r rheiny ohonoch sydd wedi bod yn Llywodraethwyr ers amser hir hefyd sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf. Mae cyfreithiau a rheoliadau yn newid. Mae mentrau newydd cyffrous gan Lywodraeth Cymru. A ydych chi'n gwybod digon am ddiogelu a recriwtio? A oes gennych y wybodaeth ddiweddaraf am y Cwricwlwm i Gymru?

Gwnewch yn siŵr nad ydych chi na'ch Corff Llywodraethu yn cael eich gadael ar ôl.

Mae'n ffodus bod hyfforddiant gwych ar gael i ni. Manteisiwch arno!

**Dr Martin Price**

Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

Rhifyn 53

**Tymor y Hydref  
2022**

**Pwyntiau arbennig o ddi-ddordeb:**

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

**Sefydlwyd VSGA i:**

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

## Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

**Manylion cyswllt:**

**John Sparks**

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr  
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820  
E-bost: [JSparks@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JSparks@valeofglamorgan.gov.uk)

**Janine Hoare**

Cynorthwydd Clerigol  
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820  
E-bost : [JHoare@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JHoare@valeofglamorgan.gov.uk)



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef [VSGA@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:VSGA@valeofglamorgan.gov.uk)  
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

**VSGA**  
a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Dysgu a Sgiliau  
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,  
Y Barri CF63 4RU



# Cymunedau Cynaliadwy

## Rhagymadrodd

Ymunais â'r Fro fis Ebrill eleni ac rwy'n gweithio i'r adran Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i helpu i ddiogelu ecoleg ein hysgolion newydd sy'n cael eu hadeiladu a hefyd i gefnogi ysgolion i wella'r fioamrywiaeth ac i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn y cwricwlwm. Mae gennyf brofiad o weithio ym meysydd ecoleg, garddwriaeth, coedyddiaeth. Ymgyrch Glanhau Traethau Glanhau Moroedd Cymru.

## Glanhau Traethau Morol Cymru

Gwnaeth tua 90 o ddisgyblion o Sant Joseff, Victoria a Westbourne gasglu sbwriel cyn cymryd rhan mewn gweithdy ar faterion amgylcheddol a gynhaliwyd gan staff y Cyngor a Cadwch Gymru'n Daclus.

Siaradodd yr artist lleol Nick John Rees, sy'n arddangos darnau ym Mhafiliwn Penarth, gyda'r disgyblion, gan ateb cwestiynau am ei waith, sy'n canolbwyntio ar olygfeydd morol.

Bwriad y digwyddiad oedd codi ymwybyddiaeth o faterion gwyrdd yn unol â Phrosiect Sero, cynllun y Cyngor i fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030.

Roedd hefyd yn rhan o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yr Awdurdod, y mae elfen ohoni'n edrych ar sut y gellir cyfoethogi'r ardaloedd lle mae cyfleusterau addysgol yn cael eu huwchraddio.

Roedd aelodau o'r contractwyr ISG ac AECOM, sy'n rhan o raglen adeiladu ysgolion y Cyngor yn bresennol, ynghyd ag unigolion o Benthg, Gwyrddio Penarth Greening a Chymuned Tyfu Penarth.



Yn ganolog i'r dysgu hwnnw mae creu Bwthyn Eco-gyfeillgar ar safle'r ysgol, a lanswyd yn swyddogol gyda digwyddiad ddydd Gwener diwethaf. Bydd yn ganolfan i blant, yn ogystal â'r gymuned ehangach, ddysgu am gadwraeth amgylcheddol.

Mae'r disgyblion bellach yn gweithio gydag Alison Maher, Rheolwr Prosiect Cyswllt y Cyngor dros Gymunedau Dysgu Cynaliadwy, i ddatblygu abwydfa ar gyfer cyfleuster compostio gwastraff bwyd.



## Bwthyn Eco-gyfeillgar

Ar ôl datgan argyfwng hinsawdd dair blynedd yn ôl, cynllun Prosiect Sero yw cynllun yr Awdurdod i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Mae Ysgol Gynradd Ynys y Barri, sydd wedi'i hysbrydoli gan yr uchelgais honno, wedi bod yn gweithio ar y cyd ag arbenigwyr o'r Cyngor i ddatblygu a chreu corff o waith wedi'i alinio â Chwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru.

Y nod oedd creu cyfres o wersi deinamig a thrawsgwricwlaidd i addysgu pobl ifanc am eu byd a'u hardal leol, gan gynnwys pwysigrwydd bioamrywiaeth, ecoleg a chynaliadwyedd.



## Prosiect Abwydfeydd Peilot

Er mwyn lleihau swm y gwastraff bwyd sy'n gadael safleoedd ysgolion ac yn ei dro lleihau allyriadau carbon, mae'r adran Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn lansio prosiect peilot i gyflwyno abwydfeydd mewn tair ysgol (Ysgol Gynradd Ynys y Barri, Ysgol Gynradd Colcot ac Ysgol Gynradd Oakfield).

Bydd y disgyblion yn gyfrifol am gasglu gweddillion bwyd o'r ffreutur a'u bwydo i'r mwydod i gynhyrchu compost mwydod i'w ddefnyddio ar eu gwelyau llysiau.

**Alison Maher**  
Rheolwr Prosiect Cyswllt, Dysgu a Sgiliau



## Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd (UPFSM)

Bu'n gyfnod prysur iawn arall i ni yma yn Big Fresh, gyda chyflwyno UPFSM ar gyfer dosbarthiadau derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 o'r diwrnod cyntaf yn ôl ym mis Medi 2022.

Rydym wedi bod yn gweithio ar hyn ers mis Chwefror 2022 o ran archwiliadau ceginau ysgol i wneud yn siŵr bod gennym yr holl adnoddau i wasanaethu'r plant sy'n manteisio ar yr opsiwn hwn.

Nid yn unig ydyn ni wedi prynu offer newydd i sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau posibl i symud ymlaen fel cwmni a thyfu, ond hefyd mae mwy o staff wedi'u cyflogi i ehangu ein gweithlu i helpu i ddarparu'r cynnydd mewn prydau bwyd yn ein hysgolion.

Mae'r adborth rydyn ni wedi'i dderbyn gan ein hysgolion wedi bod yn galonogol iawn ac yn ein rhoi mewn sefyllfa gadarnhaol iawn i wthio ymlaen i dymhorau'r gaeaf a'r gwanwyn gyda'r nod o barhau â'r safon wedi dod yn nodweddiadol o Big Fresh.

Mae Big Fresh yn falch o groesawu Ysgol Gyfun Sant Richard Gwyn o fis Medi 2022. Rydym wedi bod yn gweithio'n dda gyda'r tîm Big Fresh newydd ar y safle i ddarparu bwydlen amrywiol i'r disgyblion, ac rydym hefyd yn y broses o weithredu system til di-arian newydd o fis Tachwedd.

Mae ochr bwffe ein busnes yn dal i fynd o nerth i nerth, felly cofiwch, os oes gennych chi gyfarfodydd o unrhyw fath a'ch bod yn chwilio am wasanaeth arlwyio i greu argraff ar eich cydweithwyr neu'ch ffrindiau, cysylltwch â ni a gadewch i ni helpu.

Mae Big Fresh @ The Pier yn gweithio ochr yn ochr â thîm rheoli Pafiliwn Penarth i gynnal rhai gweithgareddau Nadoligaidd yn ystod Tachwedd a Rhagfyr, felly cadwch olwg ar Eventbrite a galwch draw i weld beth sy'n digwydd a mwynhau rhywbeth gwahanol eleni.

**Symon Dovey**  
Rheolwr Datblygu Masnachol, The Big Fresh Catering Company



# Digwyddiad Cenhadon Gwych 2022

Mae prosiect Cenhadon Hawliau'r Fro a reolir gan Wasanaeth Ieuenctid y Fro wedi parhau i gefnogi ysgolion Cenhadon Gwych i godi ymwybyddiaeth o Hawliau Plant y tymor hwn.

Y tymor hwn cyflwynodd y prosiect Cenhadon Hawliau ddigwyddiad Cenhadon Gwych wyneb yn wyneb, y cyntaf ers dechrau'r pandemig. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yng Nghanolfan Gelfyddydau Memo y Barri ar 27 Hydref 2022 gyda 25 ysgol gynradd yn bresennol. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i 51 o ddisgyblion ddysgu mwy am eu rôl fel disgyblion Cenhadon Gwych yn ogystal â deall CCUHP a phwysigrwydd hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc yn eu hysgolion.

Yn ogystal, cyflwynodd aelodau o'r Cenhadon Hawliau gyflwyniad i athrawon ar ymgorffori dull hawliau plant o ran hawliau plant o fewn lleoliad ysgol yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o "Y Ffordd lawn mewn Addysg" Comisiynydd Plant Cymru gan gysylltu â'r Cwricwlwm Newydd i Gymru. Cafodd athrawon hefyd gyfle i ddysgu mwy am y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.



Menter gan Gomisiynydd Plant Cymru yw'r Cynllun Cenhadon Gwych, a'r nod yw hyrwyddo hawliau plant ac yn benodol codi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mewn ysgolion cynradd ledled Cymru.

Mae'r Cenhadon Hawliau yn cefnogi gwahoddiad Comisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes, i bob ysgol gynradd gofrestru i'r cynllun Cenhadon Gwych. Bydd y Cenhadon Hawliau yn parhau i gefnogi'r corff ysgolion drwy gydol y flwyddyn drwy gyflwyno gweithdai ychwanegol ac adnoddau athrawon.

Mae cofrestru i'r cynllun am ddim, ac rydym yn annog llywodraethwyr ysgolion i ddarganfod a yw eu hysgol wedi cofrestru i'r Cynllun Cenhadon Gwych. Rydym yn eich gwahodd i hyrwyddo'r cynllun hwn yng nghyfarfodydd y Llywodraethwyr Ysgol a hyrwyddo'r gwaith a wneir gan y Cenhadon Hawliau. Ein cenhadaeth ni yw cael cymaint o ysgolion yn cofrestru â phosibl, mae manylion o ran sut i gofrestru ar gael ar wefan y Comisiynydd. Cenhadon Gwych - Comisiynydd Plant Cymru ([complantcymru.org.uk](http://complantcymru.org.uk)).

**Michaela O'Neill**

**Gweithiwr Prosiect Llysgennad Hawliau, Safonau a Darpariaeth**





## Cefnogi Ein Hysgolion yn y Fro

Ym mis Mehefin yr haf hwn ymunodd Lewis Gibbon â'r tîm Cymorth TGCh Ysgolion, ac mae cael Lewis yn y tîm technegwyr wedi ein helpu'n aruthrol. Mae wedi dysgu'r systemau yr ydym yn eu defnyddio'n hynod o gyflym ac mae'n mwynhau bod yn aelod o'r tîm. Sy'n beth da gan fod y tymor hwn wedi bod yn un eithriadol o brysur. Mae rhaglen ariannu Llywodraeth Cymru yn parhau, ac mae pob un ohonom wedi bod yn brysur yn anfon dyfeisiau amrywiol i ysgolion ac yn eu cofrestru. Hyd yma rydym wedi anfon 7055 o ddyfeisiau i holl ysgolion Bro Morgannwg, gan gynnwys i ysgolion nad ydym yn eu cefnogi.

Mae llond lle o offer wedi cael eu hanfon eto'r tymor hwn, gan gyrraedd y Swyddfeydd Dinesig, rhai danfoniadau heb lawer o rybudd, ond mae'r tîm wedi addasu i hyn, ac wedi gwneud jobyn gwych o anfon yr offer i ysgolion, ar ôl ei gatalogio i sicrhau bod y cyfan wedi cyrraedd.

Mae llawer iawn o offer Apple, gan gynnwys iPads, bellach yn cael eu cofrestru i Microsoft Intune, ein system Rheoli Dyfeisiau Symudol. Mae'r tîm wedi cofrestru llawer iawn o offer i'r system hon, gan ganiatáu i ni safoni offer ysgol ar draws yr awdurdod lleol o'r diwedd. Gyda'r holl offer yr ydym wedi'i anfon i'n hysgolion, mae Microsoft Intune wedi bod yn werthfawr iawn i'r tîm. Nid oes angen i lungopiwyr ac argraffwyr ysgol gael eu gosod ar ddyfeisiau unigol mwyach, mae'r rhain bellach yn cael eu rheoli gan y system. Gellir ffurfweddu rhaglenni newydd unwaith a'u cyflwyno i gymaint neu gyn lleied o gyfrifiaduron ag sydd angen, i gyd o bell.

Rydym yn credu'n gryf bod hyn yn gwneud y ffordd rydym yn cefnogi TGCh yn ein hysgolion, ynghyd â chymorth Llywodraeth Cymru, yn llawer mwy effeithlon ac effeithiol i ni, ac rydyn ni o'r farn fod gennym ni nawr fantais dechnolegol dros ein cystadleuwyr.

Eleni rydym wedi gweld sawl ysgol sydd wedi bod gydag asiantaethau cymorth trydydd parti, yn dod yn ôl atom ni am ein cefnogaeth - ac mae hynny i ni yn dweud cyfrolau!

**Christopher Thomas**

**Cefnogaeth TGCh Ysgolion i'r erthygl Cefnogi ein Hysgolion yn y Fro**





# Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Annwyl Lywodraethwr,

Mae'r **bwletin** arbennig hwn yn amlinellu'r gofynion ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) o fewn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac yn cyfeirio at adnoddau i gefnogi ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm ACRh. Gan fod ACRh yn thema drawsbynciol yng Nghwricwlwm i Gymru, mae'r wybodaeth hon yn hanfodol i'r holl staff.

**Gweler isod hefyd lythyr gan Lywodraeth Cymru am ACRh.**

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus  
Education and Public Services Group



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

I: Penaethiaid Ysgolion Cymru

Copi i:  
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Gwasanaeth Addysg Catholig yng Nghymru  
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys yng Nghymru  
Consortia Rhanbarthol

9 Tachwedd 2022

Annwyl gyd-weithwyr

Rwy'n ysgrifennu er mwyn rhoi rhywfaint o dawelwch meddwl ichi ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yng nghwricwlwm newydd Cymru.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch ichi am y gwaith rhagorol rydych yn ei wneud wrth baratoi i gyflwyno'r elfen sensitif hon o'r cwricwlwm. Rwyf am sicrhau bod cymorth ar gael i'ch ysgol, a fydd yn eich galluogi chi a chymuned yr ysgol i fod yn hyderus wrth ymdrin ag ACRh. Rwy'n ysgrifennu atoch, felly, i esbonio:

- ymateb Llywodraeth Cymru i ymgyrchoedd yn erbyn ACRh;
- y gefnogaeth y gallwch ei disgwyl wrth gyflwyno ACRh; ac
- ein disgwyliadau ni o ran ACRh.

## Camwybodaeth ynghylch ACRh

Diogelu plant rhag niwed yw'r flaenoriaeth fawr, ac mae ACRh gorfodol o ansawdd mewn ysgolion yn rhan bwysig o'n hymdrechion i wneud hynny. Mae'r Cod ACRh a'r canllawiau statudol yn gwneud hyn yn glir iawn.

Mae nifer o honiadau anghywir yn cael eu gwneud gan grŵp penodol sy'n credu bod ACRh yn rhan o gyd-ymgyrch fyd-eang ar gyfer "addysg rywioldeb gynhwysfawr". Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn gyhoeddus ei bod yn gwadu'r honiad hwn yn gryf, sy'n ddi-sail a niweidiol. Mae llenyddiaeth y grŵp yn cyfeirio at adnoddau sy'n hynod amhriodol, ac yn ein barn ni, eu bwriad yw corddi'r dyfroedd a chamarwain ynghylch natur ACRh. Nid oes yr un o'r adnoddau hynny wedi'u defnyddio yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir na fyddent yn cael eu caniatáu o dan y Cod. Rwyf am eich annog i ddarllen [y datganiad hwn](#) gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg sy'n nodi'r sefyllfa yn llawn.

## Cymorth ar gyfer ACRh

Mae eich cefnogi chi i gyflwyno ACRh yn flaenoriaeth hollbwysig i ni. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym wedi cyhoeddi sawl dogfen i'ch helpu ac i'ch cefnogi i ymgysylltu â'ch cymunedau. Yn benodol, rwyf am dynnu eich sylw at y [pecyn ACRh](#) sydd wedi'i gynllunio i helpu rhieni a gofalwyr i ddeall y newidiadau i ACRh.

Gall awdurdodau lleol hefyd gynnig cefnogaeth wrth ymateb i ohebiaeth heriol am ACRh. Yn ogystal, byddant yn gallu awgrymu proses yn fuan ar gyfer ymgysylltu â rhieni a gofalwyr, ac ar gyfer ymateb i unrhyw bryderon y maent yn eu codi.

Rwyf hefyd am nodi'n glir y cynlluniau yr ydym yn eu rhoi ar waith i ddiogelu ein holl ddsygwyr yng Nghymru, ac i roi'r cymorth i chi allu darparu ACRh o ansawdd sy'n gwarchod y plant a'r bobl ifanc hyn yn y tymor byr, canolog a hirach.

1. Yn y tymor byr, dylech ymgynghori â'ch awdurdod lleol ynghylch ymgysylltu â rhieni a gofalwyr am ACRh. Dylech hefyd ymgynghori â'ch darparwr dysgu proffesiynol, sy'n gweithio yn eich awdurdod lleol neu'ch consortiwm rhanbarthol, a all roi cymorth ac arweiniad ichi ar ddisgwyliadau'r Cod ACRh, os bydd angen hyn arnoch. Gallant hefyd gynghori a helpu o ran cyfleoedd dysgu proffesiynol a nodi adnoddau safonol, sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwyr ac sy'n sensitif i'w hanghenion. O ystyried newydd-deb a sensitifwydd ACRh, hoffwn eich annog i weithio gyda'r gwasanaethau hyn i ddewis adnoddau.
2. Yn y tymor canolog i'r tymor hir, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ymarferwyr i ddarparu rhagor o gymorth proffesiynol i ysgolion dros y flwyddyn nesaf i'w helpu i addysgu ACRh. Yn benodol, rydym yn buddsoddi cyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyd-ddatblygu adnoddau ar gyfer ysgolion i'ch helpu i gyflwyno ACRh. Byddwn hefyd yn datblygu cymorth ychwanegol ynghylch dewis adnoddau i'w defnyddio ar gyfer y pwnc. Yn ogystal, byddwn yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol cyson ym maes ACRh.

## Yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan ysgolion

Fel y gwyrddoch, mae'r gofynion gorfodol ar gyfer ACRh wedi'u nodi yn y [Cod ACRh](#). Wrth ddarparu ACRh, mae ysgolion yn cydymffurfio â'r Cod. I ategu hyn, mae [canllawiau statudol](#) y mae'n rhaid i ysgolion eu darllen yn ofalus a'u dilyn. Mae'r Cod:

- yn rhoi eglurder ynglŷn â'r hyn y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ysgolion ei gynnwys yn eu cwricwlwm;
- yn helpu ysgolion i wneud penderfyniadau ynghylch y deunydd dysgu sy'n briodol i ddatblygiad dysgwyr;
- yn rhoi tryloywder i rieni a gofalwyr am yr hyn y bydd eu plant yn dysgu amdano.

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*



Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Gwefan • website:  
[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)  
[www.gov.wales](http://www.gov.wales)



Mae'r Cod ACRh a'r canllawiau yn eu lle ar gyfer yr ysgolion hynny a fabwysiadodd eu cwricwlwm ym mis Medi. Rwyf am ddiolch ichi am y gwaith aruthrol rydych chi wedi'i wneud i sicrhau hyn. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r ysgolion hynny gyflawni'r Cod, ond mae'r Cod yn rhoi disgrisiwn ichi ynghylch pryd y dylid ymdrin ag elfennau dysgu penodol.

Mae'n hanfodol bod ysgolion yn cymryd yr amser i feithrin hyder i gyflwyno'r elfen hon o'r cwricwlwm.

Yn allweddol, wrth ddatblygu cynlluniau gwersi a dewis adnoddau, dylai ysgolion gymryd yr amser i wneud hyn yn iawn: ni ddylech deimlo eich bod yn cael eich rhuthro i ddarparu sesiynau neu ddefnyddio adnoddau nad ydych yn eu hystyried yn briodol i ddatblygiad y dysgwyr neu nad ydych yn gyfforddus â nhw neu'n teimlo'n hyderus i'w defnyddio.

Rwyf hefyd am ichi fod yn dawel eich meddwl mai dim ond pan fyddwch yn hyderus bod deunydd yn briodol i ddatblygiad dysgwyr y dylech ei gyflwyno. Er bod y Cod yn amlinellu cyfnodau cyffredinol, mae'r oedran cynharaf a nodir ym mhob ystod oed yn dynodi pryd y dylai ysgolion ddechrau ystyried a yw sesiynau dysgu'r cyfnod hwnnw yn briodol i ddatblygiad y dysgwyr. Er bod y Cod yn orfodol, felly, ni ddylai ysgolion deimlo eu bod yn cael eu rhuthro i gyflwyno elfennau o'r Cod am fod y dysgwyr wedi cyrraedd cyfnod penodol. Yn hytrach, dylid cyflwyno'r sesiynau pan fydd ysgolion yn hyderus bod y dysgwyr yn barod ar eu cyfer, ac yn achos rhai dysgwyr gall hyn fod yn hwyrach na'r ystod oedran a bennir yn y cod.

Byddwch yn ymwybodol bod ysgolion o dan ddyletswydd i gadw llygad ar eu cwricwlwm, ac mae hyn yn cynnwys ACRh. Mae hynny'n helpu i sicrhau bod ACRh yn parhau i fod yn briodol i ddatblygiad pob dysgwr.

Rydym hefyd yn eich annog i barhau i drafod gyda dysgwyr a rhieni, gan rannu eich cynlluniau â nhw. Bydd hyn yn helpu i ofalu bod eich cwricwlwm ACRh yn cael ei ddylunio mewn ffordd sensitif ac adeiladol, a bydd rhannu enghreifftiau o adnoddau a ddewiswyd gennych yn cyflawni'r un amcan. Rydym yn cydnabod bod hyn wedi bod yn heriol iawn i nifer ohonoch, ac rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod gennych gefnogaeth wrth ymateb i gwestiynau a sefyllfaoedd anodd.

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*



**BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE**


Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Gwefan • website:  
[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)  
[www.gov.wales](http://www.gov.wales)



Rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar iawn am eich rhan yn yr elfen hon o'r cwricwlwm: fel llywodraeth, rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau rydych yn eu hwynebu, ac rydym wedi ymrwmo i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i sicrhau dysgu sy'n helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ac sy'n cyfrannu at eu lles.

Yn gywir



Owain Lloyd  
Cyfarwyddwr y Gymraeg ac Addysg  
**Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg**  
Llywodraeth Cymru

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*



**BUDDSODDWR | INVESTORS**  
**MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Gwefan • website:  
[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)  
[www.gov.wales](http://www.gov.wales)



# Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2022-24

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

Rhif	Teitl	Blaenly thyren	Cyfenw	Ysgol
1	Mrs	K	Bah	Ysgol Gynradd Oak Field
2	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfo
3	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gynradd Romilly
4	Cllr Mr	A	Hennessey	Ysgol Gynradd y Rhws
5	Mrs	C	Hunt	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Nicholas
6	Mrs	S	Jenkins	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrews ac Ysgol Gyfun St Cyres
7	Cllr Mrs	J	Lynch-Wilson	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr
8	Mrs	A	Malkin	Ysgol Gynradd Gladstone
9	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn
10	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd Llansanwyr C/W
11	Mrs	T	Vaughan-Taylor	Ysgol Gyfun y Bont-faen
12	Mr	O	Williams	Ysgol Sant Baruc
13	Cllr Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria
14	Swydd Wag			
15	Swydd Wag			
<b>Tymhorau swydd Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr (PGRs)</b>				
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Cynradd - Lucy Barrowclough - Ysgol Gynradd Llandochaul				
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Uwchradd - Cathy Williams - Ysgol Bro Morgannwg				



*"Hoffem ddymuno Nadolig Llawen  
a Blwyddyn Newydd Dda  
i'n holl lywodraethwyr o'r  
Uned Cefnogi Llywodraethwyr"*

